
Y CABINET DYDD MAWRTH, 14 GORFFENNAF 2015

Yn bresennol-

Y Cyngorwr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid) a Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 23 MEHEFIN 2015

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2015.

6. DATBLYGU SAFLE FRONDEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

PENDERFYNIAD

Ymgynghori yn ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg gan adnabod yr opsiwn isod (Opsiwn 5) fel yr opsiwn a ffafrir o fewn yr ymgynghoriad –

- Datblygu model Llety Cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg ar gyfer 16 preswylydd (6 achos dwys, 10 cymedrol).

7. STRATEGAETH FFORDD GWYNEDD

The report was submitted by Cllr Peredur Jenkins.
It was seconded by Cllr Dafydd Meurig.

DECISION

To adopt the draft 'Ffordd Gwynedd' Strategy as the Council's operational Strategy.

To review the implementation of the Ffordd Gwynedd Strategy in a year's time, and assess whether additional resources are needed to realise the strategy in less time.

4. STRATEGAETH FFORDD GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r Strategaeth ddrafft 'Ffordd Gwynedd' yn Strategaeth weithredol ar gyfer y Cyngor.

Adolygu gweithrediad Strategaeth Ffordd Gwynedd ymhen blwyddyn, ac asesu a fydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn ei gwireddu o fewn llai o amser.

8. CYLLIDEB REFENIW 2015-16 - ADNABOD RISGIAU CYNNAR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod, gan nodi'r risgiau cyllideb sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2015/16 a chytuno i'r Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid Adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â

materion o dal eu rheolaeth.

Comisiynu adroddiad drwy'r Aelodau Cabinet Adnoddau ac Addysg er mwyn adolygu telerau polisi ymddeol cynnar athrawon ynghyd ag ail-ystyried trefniadau ariannu costau ymddeol cynnar a diswyddo athrawon a staff ategol ysgolion.

9. RHAGLEN GYFALAF 2015-16 ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

Eiliwyd gan y Cyng. Mair Rowlands.

PENDERFYNIAD

Yn dilyn adolygu gwariant chwarter cyntaf 2015/16, derbyn y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol.

10. ARDAL GWELLA BUSNES BANGOR A CHAERNARFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

Eiliwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r bwriad o gynnal pleidlais ymysg busnesau canol dinas Bangor a chanol tref Caernarfon ar y bwriad o sefydlu Ardal Gwella Busnes o fewn y ddwy ardal.

Pan agorir y bleidlais, cytunwyd i ddirprwyo natur y bleidlais i'r Aelod Cabinet Economi mewn cysylltiad â swyddogion perthnasol.

11. STRATEGAETH GAFFAEL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

Eiliwyd gan y Cyng. Gareth Thomas.

PENDERFYNIAD

Mabwysiadu Strategaeth Gaffael y Cyngor gan dderbyn argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol i'w addasu yn unol â pharagraffau 3.1(a) hyd 3.1(d) yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Bod yr Aelod Cabinet Economi yn pwysu ar Lywodraeth Cymru y dylid

sefydlu mesur cyson ar draws cynghorau Cymru ar gyfer 'gwariant lleol'.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.00pm.

CADEIRYDD